Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Children's Partnership

Cyngor Sir
Caerfyrddin

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

2011-2014



Adroddiad Cryno

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Cyflwyniad……

Y Cyd-destun……

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau……
Y Galw am ofal plant……
Y cyflenwad o ofal plant……

Dadansoddi'r Bylchau……..……..
Bylchau daearyddol……
Bylchau o ran incwm……
Bylchau o ran anghenion penodol……
Bylchau o ran amser……
Bylchau o ran oedran……
Bylchau o ran math……

Yr argymhellion ar gyfer sicrhau digon o ofal plant……

Casgliadau/Y Camau Nesaf……..

Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Adeilad 2, Heol Ffynnon Job, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3HB
Rhif ffôn: 01267 246555 E-bost: childreninfo@sirgar.gov.uk
Gwefan: www.partneriaethplantsirgar.org.uk

1. ADRODDIAD CRYNO YR ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

Cyflwyniad

1.1 Mae Adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd. Mae'r Asesiad yn gam angenrheidiol er mwyn sicrhau digon o ddarpariaeth gofal plant yn y sir. Ei nod yw nodi bylchau gofal plant, a gwneud argymhellion a fydd yn diwallu anghenion rhieni a gofalwyr sy'n byw yn y Sir, a sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran digonolrwydd gofal plant.

1.2 Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant cyntaf yn 2008. Lluniwyd Cynllun Gweithredu a oedd â chysylltiad uniongyrchol â'r argymhellion a wnaed yn yr Asesiad cyntaf. Mae'r Cynllun hwnnw wedi'i adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed.

1.3 Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ail Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a gafodd ei gynnal yn 2010 a 2011 yn unol â *'Phecyn cymorth ar gyfer cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant'* Cordis Bright Consulting a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2010.

1.4 Hwn oedd sylfaen y Crynodeb o'r Asesiad a oedd yn destun ymgynghori rhwng 21ain Mawrth a 18fed Ebrill 2011.

1.5 Wrth drafod 'digonol' rydym yn golygu cael y math a'r swm priodol o ofal plant o safon uchel fforddiadwy a hygyrch i gwrdd ag anghenion rhieni/gofalwyr yn Sir Gaerfyrddin gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion teuluoedd yn achos:

- y ddarpariaeth gofal plant y mae'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith yn daladwy;
- y ddarpariaeth gofal plant sydd yn addas ar gyfer plant anabl;
- y ddarpariaeth gofal plant sy'n cynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg.

1.6 Mae'r Asesiad wedi gweld bylchau yn y Gofal Plant mewn perthynas â:

- bylchau daearyddol
- bylchau o ran incwm
- bylchau o ran anghenion penodol
- bylchau o ran amser
- bylchau o ran oedran
- bylchau o ran math

1.7 Mae'r ddyletswydd digonolrwydd yn berthnasol i ofal plant rhwng 0 a 14 oed a hyd at 17 oed yn achos plant ag anableddau neu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

1.8 Diben cynnal Asesiad yw galluogi Awdurdodau Lleol i sicrhau bod digon o ofal plant er mwyn helpu rhieni/gofalwyr i wneud y canlynol:

- Cael gwaith neu barhau i weithio;
- Cael hyfforddiant er mwyn eu helpu i ddychwelyd i weithio / dechrau ar waith cyflogedig.

1.9 Wrth gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, aethpwyd ar drywydd nifer o ffynonellau ymchwil:

- Dadansoddiad o ddata demograffig ac economaidd-gymdeithasol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyllid a Thollau EM, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac amryw o adrannau Cyngor Sir Caerfyrddin, i gael syniad o broffil y ffactorau sy'n effeithio ar y galw a'r gallu i dalu am ofal plant yn Sir Gaerfyrddin.

- Dadansoddiad o'r data a gedwir gan yr Awdurdod Lleol ar y cyflenwad o ofal plant cofrestredig trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD).

- Ymgynghori gyda rhieni/gofalwyr drwy gyfrwng holiadur a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2010.

- Ymgynghori â darparwyr gofal plant trwy gyfrwng holiadur ym mis Medi 2010.

- Ymgynghori â chyflogwyr drwy gyfrwng holiadur ym mis Chwefror a mis Mawrth 2010.

- Ymgynghori â grwpiau anodd eu cyrraedd, gan gynnwys rhieni/gofalwyr plant anabl, a theuluoedd o Bwyliaid drwy grwpiau ffocws, rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2010.

- Ymgynghori â phlant a phobl ifanc sy'n mynychu trawstoriad o leoliadau gofal plant, drwy ddadansoddi holiaduron, rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011.

- Dadansoddiad o ddata atodol sy'n deillio o amryw o ffynonellau ychwanegol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), y Ganolfan Byd Gwaith, Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM), Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA), Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) a Chlybiau Plant Cymru Kid's Clubs (CPCKC).

1.10 Y ddaearyddiaeth safonol a ddefnyddir ar gyfer data ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr yw'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs), sy'n cael eu hadeiladu o grwpiau o ardaloedd cynnyrch a

ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 2001. Mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd llawer o'r data ei gasglu ar lefel LSOA ond cafodd ei gyfuno yn ardaloedd rhwydwaith cymunedol sy'n rhan o'r broses Cynllunio Cymunedol yn Sir Gaerfyrddin. Mae chwech o'r rhain: Aman, Gwendraeth, Llanelli, Taf Myrddin, Teifi a Thywi. (Ffigur 1.1)

Y Cyd-destun

1.11 Sir Gaerfyrddin yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru o safbwynt daearyddol, ac roedd yn cwmpasu rhyw 2,371 cilometr sgwâr ar ganol 2009, sef 11.5% o gyfanswm tir Cymru.. Mae'n sir wledig yn bennaf, felly gall ardaloedd prin eu poblogaeth ac unigedd daearyddol fod â goblygiadau pwysig ar gyfer y gost o ddarparu gwasanaethau. Mae bron i dair rhan o bump (58%) o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw mewn ardaloedd o boblogaeth 'brin' neu 'brin iawn'. Mae tri chwarter (74%) y bobl yn ardal rhwydwaith cymunedol Llanelli yn byw mewn ardaloedd trefol o gymharu â 9% yn ardal rhwydwaith cymunedol Tywi a dim yn ardal rhwydwaith cymunedol Teifi. Yng nghyd-destun gofal plant, gall ardaloedd prin eu poblogaeth fod â goblygiadau o ran natur a math y ddarpariaeth gofal plant, mynediad at ofal plant ac ar ddarparu hyfforddiant i staff gofal plant.

Ffigur 1.1 Ardaloedd Rhwydwaith Cymunedol Sir Gaerfyrddin



1.12 Ar ganol 2009 amcangyfrifwyd fod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 180,767, sef cynnydd o 7,115 ar yr amcangyfrif o 173,652 ar ganol

2001. Mae hyn yn gynnydd rhwng 2001-2009 o 4.1% o'i gymharu â chynnydd o 3.1% yng Nghymru.

1.13 Dros yr un cyfnod, mae nifer y plant 0 i 14 oed wedi gostwng 4%, gyda'r ganran fwyaf yn gostwng yn y grwpiau blwyddyn 5 - 7 oed ac 8 - 10 oed, a oedd wedi gostwng 11% a 9% yn y drefn honno. I'r gwrthwyneb bu cynnydd o 9% mewn plant 2 oed ac iau.

1.14 Rhwng 2001 a 2008 roedd mwy o farwolaethau yn y sir na genedigaethau. Felly roedd y cynnydd yn y boblogaeth yn ganlyniad i fewnfudiad cadarnhaol net a oedd yn fwy na gwneud iawn am y newid naturiol negyddol.

1.15 Er bod prinder dulliau cynhwysfawr a chywir o fesur mewnfudo, mae'n amlwg fod Sir Gaerfyrddin wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y gweithwyr mudol ers 2001. Yn 2000 dechreuodd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru recriwtio nyrsys Ffilipinaidd, sydd bellach wedi ymgartrefu yng nghanolfannau trefol Caerfyrddin a Llanelli ger y prif ysbytai. Dros y cyfnod 2001 i 2007 bu cynnydd yng nghyfran y plant 'Du a Lleiafrifoedd Ethnig' o 1.5% i 2.4%. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r gwledydd A8 sydd wedi'u derbyn i'r UE wedi allforio gweithwyr mudol i Sir Gaerfyrddin. Yn y cyfnod Ebrill 2004 - Medi 2010, roedd 4,350 o weithwyr mudol wedi cofrestru yn y sir, yn bennaf o Wlad Pwyl.

1.16 Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu y gallai cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin gynyddu 11.2 y cant erbyn canol 2023. Gallai'r amcanestyniad o nifer y plant 0 i 14 oed gynyddu 8.5% dros yr un cyfnod.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Y Galw am Ofal Plant

1.17 Mae llawer o ffactorau'n cyfuno i benderfynu ar y galw am ofal plant ffurfiol. Mae'r gallu i dalu am ofal plant yn gysylltiedig ag amryw o ffactorau gan gynnwys statws cyflogaeth ac incwm y cartref; natur a math yr aelwyd; oedran a nifer y plant a'r cyflenwad o ofal plant addas a'i gost.

1.18 Drwy arolwg Rhieni/Gofalwyr 2010-11 gwelwyd fod 72% o'r ymatebwyr yn defnyddio gofal plant ar gyfer ambell blentyn neu bob plentyn. Yr elfen bwysicaf oedd gofal plant anffurfiol a ddarperir gan deulu a ffrindiau ac a ddefnyddir ar ei ben ei hun neu ar y cyd â mathau eraill o ofal plant. Ar gyfer ymatebwyr a oedd yn defnyddio gofal plant, roedd traean yn defnyddio teulu a ffrindiau yn ystod y tymor ysgol, ac roedd mwy na dwy ran o dair (68%) yn eu defnyddio yn ystod gwyliau'r ysgol.

1.19 Roedd y defnydd mwyaf yn ardal Taf Myrddin (78%), a'r isaf yn ardaloedd cymunedol Llanelli ac Aman lle'r roedd 67% a 65% o'r ymatebwyr yn defnyddio gofal plant.

1.20 Roedd yr Arolwg Rhieni/Gofalwyr yn dangos yn glir mai'r prif reswm dros ddefnyddio gofal plant oedd galluogi rhieni i weithio, a chofnodir hynny gan 86% o'r ymatebwyr. Roedd chwarter yr atebion yn tynnu sylw at fanteision cymdeithasol ac addysgol gofal plant.

1.21 Y prif resymau dros beidio â defnyddio gofal plant a roddir gan 43% o'r ymatebwyr oedd bod y plentyn yn derbyn gofal gan bartner neu gan y teulu, neu fod yr ymatebwyr wedi dewis peidio â defnyddio gofal plant. Cost oedd y ffactor bwysicaf a nodwyd gan y rhai nad oeddynt yn defnyddio gofal plant.

1.22 Gofynnodd yr Arolwg Rhieni/Gofalwyr i'r ymatebwyr beth, yn eu barn hwy, oedd y ffactorau pwysicaf wrth ystyried darparwr gofal plant addas. Yr atebion oedd staff medrus a phrofiadol (92%), lleoliad wedi'i gofrestru gan AGGCC (88%), lleoliad (89%) a'r gost (83%). Pan ofynnwyd pa mor fodlon oeddent ar ofal plant, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn fodlon ar ansawdd, argaeledd, gwerth a'r dewis o ofal plant yn y sir. Roedd pryderon penodol, fodd bynnag, am gost gofal plant. Roedd ffactorau cost yn cael eu hystyried yn bwysicach yn ardaloedd Llanelli ac Aman nag yn y sir gyfan.

1.23 Roedd tri deg saith y cant o'r ymatebwyr wedi cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gofal plant yn rhwystr i gael gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir yn is-ardaloedd Aman a Gwendraeth lle'r oedd rhyw 43% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gofal plant yn rhwystr o'i gymharu â ffigur cyffredinol o 37%. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr fod materion gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith a dywedodd 20% eu bod wedi cael eu rhwystro rhag gweithio mwy o oriau. Ar ôl ymgynghori â'r Ganolfan Byd Gwaith gwelwyd cynnydd yn nifer y rhwystrau gofal plant a gofnodwyd gan rieni rhwng Hydref 2009 a Hydref 2010. Roedd y cynnydd canrannol uchaf yn nifer y lleoedd gofal plant oedd eu hangen yn ardal Canolfan Byd Gwaith Llanelli.

1.24 Gofynnwyd i gyflogwyr a oedd argaeledd gofal plant wedi cael effaith ar bresenoldeb neu ar batrymau gweithio. Roedd ychydig dros chwarter y cyflogwyr (27%) yn teimlo bod hyn yn wir, er bod 14% arall yn ansicr. Nid oedd yr effaith ar bresenoldeb neu ar batrymau gwaith yn gyson. Roedd yn amrywio yn ôl amser dechrau, gyda 50% o'r cyflogwyr hynny oedd yn agored 24 awr, wedi nodi effaith o gymharu â 21% o gyflogwyr oedd yn agored rhwng 8.00a.m. a 18.00p.m. Roedd gwahaniaethau hefyd yn ôl maint y cyflogwr, gyda hanner y cyflogwyr mawr yn nodi effaith, o'i gymharu â 22% o gyflogwyr bach. Daeth i'r amlwg nad oedd hanner y cyflogwyr mawr yn gwybod a oedd argaeledd gofal plant wedi cael effaith ai peidio ar bresenoldeb ac ar batrymau gwaith.

1.25 Roedd wyth deg wyth y cant o gyflogwyr a holwyd yn cynnig un neu ragor o fathau o gymorth gofal plant. Y math mwyaf cyffredin oedd rhoi amser i ffwrdd am resymau teuluol brys, ac roedd 92% o'r ymatebwyr yn cynnig hwnnw, sef yr un lefel ag yn arolwg 2005. Roedd chwarter yr ymatebwyr (25%) yn cynnig talebau gofal plant yn 2010, o'i gymharu â dim ond 5% yn 2005.

1.26 Gofynnwyd i gyflogwyr a oeddent yn cynnig trefniadau hyblyg. Roedd bron tri chwarter yr ymatebwyr (72%) yn cynnig un math neu ragor o drefniadau gweithio hyblyg. Y trefniant mwyaf cyffredin oedd 'oriau hyblyg', oedd yn cael eu cynnig gan 60% o ymatebwyr, ac yna 'gweithio llai o oriau neu weithio gartref' (47%). Mae'r trefniadau hyblyg yn amrywio'n sylweddol yn ôl sector diwydiannol gyda hanner y cyflogwyr yn y sector 'Cludiant a Chyfathrebu' (50%), 'Gwestai a Bwytai' (50%) a 'Gweithgynhyrchu' (46%) yn cynnig dim trefniadau gweithio hyblyg o gwbl.

1.27 Mewn sir gyda 37% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn dibynnu ar y sector 'gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd', gallai'r toriadau arfaethedig yn y sector cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU effeithio ar y galw am ofal plant. Mae'n debygol y bydd cwtogi ar swyddi, a bydd hynny yn ei dro yn cael effaith luosol ledled economi'r sir trwy'r gostyngiadau gwariant dilynol a allai arwain at ostyngiad yn y galw am ofal plant ffurfiol.

Y cyflenwad o ofal plant

1.28 Ar y cyfan mae trigolion Sir Gaerfyrddin yn defnyddio lleoliadau gofal plant o fewn y sir. Fodd bynnag, caiff y cysylltiadau teithio i'r gwaith rhwng y sir ac Abertawe eu hadlewyrchu yn y ffaith bod 7% o'r ymatebwyr o ardal Llanelli yn defnyddio cyfleusterau gofal plant yn Abertawe. . Mae'r cysylltiadau agos hefyd rhwng ardal Teifi a Cheredigion yn amlwg yn y ffaith fod 18% o'r ymatebwyr o ardal gymunedol Teifi yn defnyddio gofal plant yng Ngheredigion.

1.29 Mae gofal plant ffurfiol yn cael ei ddarparu yn Sir Gaerfyrddin gan warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, gofalwyr sesiynol a lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol. Ym mis Tachwedd 2010 roedd **214** lleoliad yn Sir Gaerfyrddin wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). O'r rhain, roedd **81** yn warchodwyr plant; **33** yn lleoliadau gofal dydd; **59** yn lleoliadau gofal sesiynol (gan gynnwys dau fws teithiol i deuluoedd), ac roedd y **41** oedd yn weddill yn lleoliadau gofal y tu allan i'r ysgol. Rhyngddynt, mae'r rhain yn darparu cyfanswm o **3,835 o leoedd gofal plant cofrestredig**.

1.30 Yn 2009, roedd gan Sir Gaerfyrddin 28 lle gofal plant cofrestredig i bob 100 o blant dan 8 oed. Mae hyn yr un fath â chyfartaledd Cymru, ond roedd gan fwy na hanner awdurdodau Cymru gyfraddau uwch na Sir

Gaerfyrddin. Yn 2010 roedd 25 lle gofal plant cofrestredig i bob 100 o blant, oedd yn amrywio o Lanelli gydag 17 lle i bob 100 o blant i Taf Myrddin gyda 40 lle i bob 100 o blant.

1.31 Dim ond rhan o'r darlun o ofal plant yn y sir yw nifer y lleoliadau cofrestredig. Nid oes angen cofrestru rhai lleoliadau, ac mae'r rheini'n cynnwys er enghraifft leoliadau sy'n cynnig gwasanaethau i blant dros 8 mlwydd oed, a gwasanaethau sydd ar agor am lai na 2 awr. Mae cynnwys lleoliadau sydd heb eu cofrestru yn cynyddu nifer y lleoedd gofal plant i **5,584**.

1.32 Ym mis Tachwedd 2010 roedd 81 **o warchodwyr plant cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin, wedi'u cofrestru ar gyfer** 430 **o blant.** Mae hyn yn dangos twf yn y niferoedd ers 2008 pan roedd **75** o warchodwyr plant wedi'u cofrestru i ofalu am **392** o blant. Mae'r cynnydd yn y niferoedd yn cuddio maint y newid o fewn y sector gofal plant penodol hwn. O'r **75** o warchodwyr plant cofrestredig yn 2008, roedd **31** wedi rhoi'r gorau i warchod plant erbyn 2010. Daeth tri deg saith o warchodwyr plant newydd i'r sector yn ystod y cyfnod hwnnw.

1.33 Y prif resymau dros roi'r gorau i warchod plant oedd rhesymau ariannol, naill ai bod yr ymatebwyr wedi dod o hyd i waith oedd yn talu'n well (25%) neu nad oedd gwarchod plant yn ariannol hyfyw (20%). Dim ond 10% o'r ymatebwyr ddywedodd mai'r rheswm oedd 'prinder plant'. Mae'r lefel isel o leoedd gwag yn ardaloedd Teifi a Thywi yn awgrymu bod galw mawr am wasanaethau gwarchodwyr plant. Mewn cyferbyniad llwyr mae cyfraddau uchel o leoedd gwag yn ardaloedd Llanelli ac Aman, er bod y ddwy ardal hyn wedi gweld cynnydd yn nifer y gwarchodwyr plant rhwng 2008 a 2010.

1.34 Rhwng mis Ionawr 2008 a mis Tachwedd 2010 cynyddodd nifer y meithrinfeydd dydd yn y sir o **29** i **33**. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y lleoedd cofrestredig o **1,061** i **1,101**. Mae dosbarthiad y meithrinfeydd dydd yn dangos patrwm mwy dwys na'r un gwarchodwyr plant. Mae'r ffocws ar ardaloedd mwy trefol Caerfyrddin a Llanelli. Nid oes unrhyw feithrinfeydd dydd yn isorweddol Teifi, ac mae meithrinfeydd dydd ond yn darparu 14% o'r lleoedd gofal plant cofrestredig yn ardal Gwendraeth, sydd lawer yn is na'r cyfartaledd sirol o 30%.

1.35 Nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf fod nifer y lleoliadau a'r lleoedd gofal sesiynol wedi bod yn dirywio. Rhwng 2002 a 2008 **gwelwyd gostyngiad o** 75 **i** 61 **yn nifer y lleoliadau, ac roedd nifer y lleoedd wedi gostwng o** 1,320 **i** 1,139. Ers 2008 bu gostyngiad bach i **59** lleoliad a **1,119** lle. Mae lleoliadau gofal sesiynol yn darparu'n bennaf ar gyfer plant 4 oed ac iau. Fel arfer, maent ar agor yn ystod y tymor, gyda'r mwyafrif (86%) ar agor am 39 wythnos y flwyddyn. Er bod y rhan fwyaf o leoliadau (94%) ar agor am bedwar neu bum bore'r wythnos, dim ond 16% sydd ar agor am 4 prynhawn neu ragor yr wythnos. Mae wyth deg pedwar y cant o leoliadau yn

dechrau rhwng 9 am a 12 hanner dydd. Oherwydd yr oriau agor cyfyngedig a pha mor aml y maent ar agor, rôl gyfyngedig iawn sydd gan leoliadau gofal sesiynol o ran darparu gofal plant i rieni sy'n gweithio.

1.36 Ar y cyfan roedd 9 meithrinfa newydd a 4 wedi cau, gyda'r cynnydd pennaf yn isorweddol Llanelli. Yn gyffredinol, mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gymharol uchel, gan adlewyrchu'r galw amdano. Yr eithriad oedd isorweddol Tywi lle mae'r nifer oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn is na 50%, er bod mwy o ymholiadau am ofal plant yn yr ardal honno.

1.37 Gwelwyd gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal cofrestredig y tu allan i'r ysgol rhwng 2008 a Thachwedd 2010, o **1,592** i **1,175** o leoedd. Fodd bynnag, mae'n anodd cyfrif union nifer y lleoedd y tu allan i'r ysgol sydd ar gael yn y sir. Dim ond rhan o'r darlun yw'r lleoliadau cofrestredig, ac yn un sy'n anodd ei ddehongli oherwydd gall un cofrestriad fod â thair elfen - gofal cyn-ysgol, gofal ar ôl ysgol a gofal gwyliau. Mae rhai o'r meithrinfeydd dydd hefyd yn darparu cyfuniad o gyfleusterau y tu allan i'r ysgol.

1.38 Roedd **84** clwb ar ôl ysgol yn Sir Gaerfyrddin oedd yn cynnig **2,787** lle ym mis Tachwedd 2010. Er y bu cynnydd o 22% yn nifer y lleoedd mewn clybiau ar ôl ysgol ers 2008, mae rhannau helaeth o Sir Gaerfyrddin wledig yn parhau heb ofal ar ôl ysgol o unrhyw fath.

1.39 Mae clybiau gwyliau yn darparu chwarae a gofal llawn drwy'r dydd yn ystod gwyliau'r ysgol, tra bydd Cylchoedd Chwarae yn darparu gweithgareddau chwarae ar gyfer plant ysgol yn ystod gwyliau'r haf, naill ai ar sail sesiynol, neu fynediad agored. Yn 2010 roedd **38** lleoliad oedd yn cynnig **1,038** lle. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau i'w cael yn nhrefi Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman a Llandeilo a'r cylch.

1.40 Ym mis Chwefror 2008 roedd rhyw **86** o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan yn y Fenter Brecwast am Ddim, ond erbyn 2010 roedd hynny wedi cynyddu i **106** o ysgolion. Ym mis Ebrill 2010 roedd 90% o holl ysgolion Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan yn y Fenter Brecwast am Ddim, ac roedd hynny lawer uwch na chyfartaledd Cymru o 68% o ysgolion. Yn y flwyddyn 2009/10 canran disgyblion Sir Gaerfyrddin oedd yn cymryd brecwast am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad oedd 24%. Hwn oedd yr uchaf o holl awdurdodau Cymru ac mae i'w gymharu â chyfartaledd Cymru o 18%.

1.41 Mae cyllid wedi dod i law oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cynnig lle rhan-amser di-dâl mewn lleoliad addysgol cymeradwy, y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair. Os nad yw plentyn wedi cael cynnig lle rhan-amser mewn ysgol, yna efallai y bydd modd cynnig lle am ddim mewn lleoliad arall, hynny yw cylch chwarae neu feithrinfa ddydd, am o leiaf ddeg awr yr wythnos.

Er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn darparu profiadau addysgol priodol, bydd angen i bob lleoliad nas cynhelir gael Arolygiad ESTYN.

1.42 Yn Sir Gaerfyrddin caiff plant eu hariannu am ddau dymor yn unig am £350 yr un y tymor. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol cyllidebwyd ar gyfer **1,500** lle. Nifer cyfartalog y lleoedd addysg di-dâl i blant tair oed yw **478** y tymor, sy'n cyfateb i gyfradd fanteisio o 13%. Mae **62** lleoliad cofrestredig yn y sir, ac o'r rheini mae **17** yn feithrinfeydd dydd a **45** yn Gylchoedd Meithrin, sydd wedi'u dosbarthu'n eang ar draws y sir.

1.43 Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Dechrau'n Deg sy'n darparu gwasanaethau cymorth dwys i blant 0-3 oed a'u teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin. Rhaglen wedi'i thargedu yw hon sydd ar gael mewn wyth ardal ddaearyddol yn y sir. Mae'r rhain yn y Betws yn ardal Rhydaman; Bigyn; Felin-foel; Y Morfa; Lakefield/ Copperworks a Llwynhendy yn ardal Llanelli; Carwe a Pharc Waun Dew yn nhref Caerfyrddin.

1.44 Mae gan blant 2-3 oed, sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, hawl i gael gofal rhan-amser di-dâl am ddeuddeg awr a hanner yr wythnos, sydd gyfwerth â dwy awr a hanner y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, am 42 wythnos y flwyddyn. Yn 2010, prynodd Dechrau'n Deg **216** o leoedd gofal plant. Ym mis Medi 2010 rhoddwyd gofal i **203** o blant, sef cyfradd fanteisio o 94%. Roedd amrywiadau rhwng ardaloedd gyda'r gyfradd fanteisio isaf (45%) yn ardal y Betws.

DADANSODDIAD O'R BYLCHAU

Bylchau daearyddol

1.45 Nodwyd eisoes fod bron i dair rhan o bump (58%) o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw mewn ardaloedd o boblogaeth 'brin' neu 'brin iawn'. Mae tri chwarter (74%) y bobl yn ardal rhwydwaith cymunedol Llanelli yn byw mewn ardaloedd trefol o gymharu â 9% yn ardal rhwydwaith cymunedol Tywi a dim yn ardal rhwydwaith cymunedol Teifi. Un o'r meysydd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc): Mynegai Plant 2008, yw Maes Amddifadedd Daearyddol Mynediad i Wasanaethau. Mae hwn yn cyfuno nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â mynediad i ysgolion cynradd, llyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau hamdden ac ysgolion uwchradd. Mae'r mynegai yn dangos bod yr ardaloedd mwyaf hygyrch yn ardaloedd cymunedol Llanelli ac Aman ac yn nhref Caerfyrddin .

1.46 Mae materion prinder poblogaeth a hygyrchedd yn effeithio ar y ddarpariaeth gwasanaethau gofal plant.

1.47 Mae dosbarthiad y meithrinfeydd dydd yn dilyn patrwm dwys gyda'r ffocws ar ardaloedd mwy trefol Caerfyrddin a Llanelli. Nid oes unrhyw feithrinfeydd dydd yn is-ardal Teifi, ac mae meithrinfeydd dydd ond yn darparu 14% o'r lleoedd gofal plant cofrestredig yn ardal Gwendraeth,

sydd lawer yn is na'r cyfartaledd sirol o 30%. Mae ardaloedd fel is-ardal Teifi yn dibynnu'n fawr ar warchodwyr plant i ddarparu gofal dydd.

1.48 Mae lleoliadau gofal sesiynol wedi'u dosbarthu'n eang ledled rhannau gwledig y sir. Dim ond 20% o'r holl leoedd cofrestredig yn ardal Taf Myrddin sydd yn lleoedd gofal sesiynol, ond mae bron dwbl hynny yn is-ardaloedd Teifi (37%) a Gwendraeth (40%). Rôl gyfyngedig yn unig sydd i leoliadau o'r fath o ran darparu gofal plant i alluogi rhieni i weithio.

1.49 Er y bu cynnydd o 22% yn nifer y lleoedd mewn clybiau ar ôl ysgol ers 2008, mae rhannau helaeth o Sir Gaerfyrddin wledig yn parhau heb ofal ar ôl ysgol o unrhyw fath.

1.50 Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai 11 i 14 oed gael ei gwella'n sylweddol pan fydd darpariaeth Ownzone yn cael ei hymestyn i'r pedair ysgol uwchradd lle nad yw ar gael ar hyn o bryd. Mewn astudiaeth ym mis Hydref 2010 gwelwyd mai un ysgol yn unig sy'n darparu bws hwyr i gludo plant adref. Gall plant sy'n dibynnu ar gludiant ysgol fod dan anfantais oherwydd fe'u rhwystrir rhag aros yn yr ysgol ar ôl oriau am nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o gyrraedd adref.

1.51 Tybir fod 4 lle gwyliau i bob 100 o blant rhwng 3 a 14 oed (17 oed yn achos plant anabl) yn y sir. O ran y clybiau gwyliau sydd ar gael yn yr is-ardaloedd, maent yn amrywio o 2 le i bob 100 o blant yn Llanelli i 11 lle i bob 100 o blant yn is-ardal Teifi. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chlystyru mewn rhai mannau yn unig, sy'n golygu fod rhannau helaeth o'r sir heb ddarpariaeth o gwbl.

Bylchau o ran incwm

1.52 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar feysydd lle mae prinder gofal plant fforddiadwy.

1.53 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 yn dangos mai yn ardaloedd cymunedol Llanelli ac Aman y mae'r amddifadedd mwyaf o ran cyflogaeth. Mae 190 LSOA yn y deg y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran amddifadedd cyflogaeth, ac mae deg o'r rheini yn ardal Llanelli.

1.54 Mae saith LSOA (6%) yn Sir Gaerfyrddin ymhlith y deg y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran y maes incwm. Mae'r rhain wedi eu lleoli yn bennaf yn ardal Llanelli - yng Nglanymôr, Bigyn a Llwynhendy, a hefyd yng Nghaerfyrddin. . Mae ardaloedd eraill o amddifadedd mawr o ran incwm yn cynnwys rhannau o'r Garnant, Trimsaran a Llanegwad.

Ffigur 1.2: Y Galw am Ofal Plant



1.55 Mae ffigur 1.2 yn mapio'r Mynegai o'r Galw am Ofal Plant. Cafodd ei greu drwy gyfuno amryw o ddangosyddion y galw am ofal plant, o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008; y Dangosydd Gofal Plant Cenedlaethol, 2008; nifer y plant; nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith; a pharau ac unig rieni sydd mewn gwaith.

1.56 Gellir ystyried ardaloedd a ddosberthir yn rhai llawer uwch na'r cyfartaledd ac uwch na'r cyfartaledd yn rhai sydd â galw 'mawr' am ofal plant, gyda'r ardaloedd sy'n weddill â galw 'isel' am ofal plant. Mae ardaloedd o alw 'mawr' yn y mannau hynny lle disgwylir i rymoedd y farchnad weithredu i ddarparu lleoedd gofal plant. Mae'n fwy tebygol y bydd angen ymyrraeth yn yr ardaloedd hynny lle mae'r galw'n 'isel'.

1.57 Fel y dengys Ffigur 1.2 mae'r ardaloedd sydd â galw llawer is na'r cyfartaledd am ofal plant yn is-ardaloedd Llanelli a Gwendraeth.

1.58 Mae ychydig dros draean (34%) y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 14 oed (17 oed yn achos plant anabl), yn byw mewn ardaloedd o alw 'mawr'. Mae amrywiaeth eang rhwng yr ardaloedd rhwydwaith cymunedol gyda 12% yn ardal Aman a 55% yn ardal Taf Myrddin.

1.59 Mae canlyniadau'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr yn dangos nad yw rhai rhieni'n manteisio ar gyfleoedd i gael gofal plant am ddim neu ofal plant â chymhorthdal. Dim ond hanner yr ymatebwyr (52%) yr oedd gan eu plant hawl i 10 awr o addysg ddi-dâl yr wythnos fanteisiodd ar hynny.

Roedd y gyfradd fanteisio yn amrywio'n eang o fewn y sir, o 42% yn is-ardal Gwendraeth i 75% yn is-ardal Aman.

1.60 Roedd cyfran sylweddol o rieni a gofalwyr (18%) yn ansicr p'un a allent ai peidio hawlio'r Credydau Treth Gwaith neu'n gwybod dim am yr elfen gofal plant (9%). Nid oedd mwy na thraean (35%) yn gwybod lle i gael gwybodaeth briodol.

Bylchau o ran anghenion penodol

1.61 Casglwyd ystadegau ar blant ag anableddau o nifer o ffynonellau o fewn y Cyngor Sir. Mae'r data yn cynnwys plant sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r rhai ag anableddau corfforol a gynhwysir ar gofrestr anabledd yr Awdurdod Lleol. Roedd y data yn dangos bod **1,464** o blant rhwng 3 a 17 oed ag anableddau, sy'n cynrychioli ychydig yn llai na 5% o'r boblogaeth plant 0 i 14 oed (i 17 oed yn achos plant anabl).

1.62 Yn eu hymatebion i'r Arolwg Darparwyr, mae 12% o'r gwarchodwyr plant ar hyn o bryd yn gofalu am blant anabl, ac felly hefyd 53% o'r meithrinfeydd dydd, 28% o'r cyfleusterau gofal y tu allan i'r ysgol a 28% o'r lleoliadau gofal sesiynol.

1.63 Roedd y grwpiau ffocws yn dangos bod plant anabl yn elwa'n fawr ar Glybiau ar ôl Ysgol a Chylchoedd Chwarae sy'n cael eu rhedeg yn effeithiol. Dywedodd rhieni eu bod yn help i adeiladu perthynas gryfach rhwng plant, ac yn eu galluogi i fondio; chwarae mewn amgylchiadau diogel; a helpu plant i fagu hyder i ffwrdd oddi wrth eu rhieni. Fodd bynnag, nododd yr Arolwg Darparwyr mai dim ond 2% o'r holl blant y darparwyd ar eu cyfer oedd yn anabl.

1.64 Rhoddodd y rhieni amrywiaeth o resymau dros beidio â defnyddio cylchoedd chwarae penodol gan gynnwys pryder nad yw'r staff gofal plant yn deall anghenion unigol y plentyn; bod prinder staff arbenigol; bod y staff yn 'rhy ifanc', a bod prinder staff yn gyffredinol. Roedd hygyrchedd yn broblem i rai rhieni, oherwydd eu bod yn gorfod teithio cryn bellter i gael mynediad i leoliad addas am fod cyfleusterau'n brin. Mae cost hefyd yn fater o bwys, gan fod angen gofal un-i-un ar lawer o blant anabl, ac roedd rhai rhieni yn poeni am ariannu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

1.65 Un mater o bwys penodol oedd cysylltiadau priodol ar gyfer cyngor neu wybodaeth ac argaeledd gweithgareddau a gwasanaethau eraill.

1.66 Ar y cyfan, mynegodd darparwyr gofal plant ddiddordeb mewn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach i gwrdd ag anghenion plant anabl. Roeddynt yn amrywio o 56% o warchodwyr plant i 88% o feithrinfeydd dydd. Dywedwyd fod angen hyfforddiant ychwanegol penodol ar gyfer anghenion arbennig ac arian i brynu cyfarpar arbenigol ar gyfer anghenion unigol y plant, e.e. cyfarpar synhwyraidd. Soniwyd hefyd

bod cyllid ar gyfer gwneud mân addasiadau i adeiladau hefyd yn fater i'w archwilio ymhellach.

Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) Materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw a gweithio ynddynt[1], awgrymodd AWEMA ac Oxfam bod gofal plant yn broblem benodol i weithwyr mudol wrth chwilio am waith oherwydd y rhwystrau ieithyddol a diwylliannol. Cadarnhawyd hynny gan grŵp ffocws oedd â rhieni o Wlad Pwyl a ddywedodd eu bod wedi cael anhawster i ddod o hyd i ofal plant a oedd yn addas i'w hanghenion ac ar gael yn eu mamiaith. Ar hyn o bryd nid oes gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn eu hiaith hwy. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith nad oes ganddynt deulu estynedig a fyddai fel arfer yn darparu gofal plant.

Bylchau o ran amser

1.68 Ar y cyfan, mae darparwyr gofal dydd ar agor yn ystod y diwrnod gwaith arferol. Mae'r rhan fwyaf (90%) o warchodwyr plant yn dechrau cyn 9.00 a.m., ac mae mwy na'r chwarter ohonynt (27%) yn dechrau cyn 7.30 a.m. Er bod 14% o warchodwyr plant yn gweithio ar ôl 6.00 p.m., roedd hynny'n amrywio yn y sir, gan nad oedd unrhyw un yn gwneud hyn yn is-ardaloedd Teifi, Tywi a'r Gwendraeth, ac roedd 30% yn gwneud hyn yn Llanelli. Mae meithrinfeydd dydd ar y cyfan ar agor trwy gydol y flwyddyn, bum niwrnod yr wythnos. Roedd un ar ddeg y cant o'r ymatebwyr yn agor am chwe diwrnod. Roedd y rhan fwyaf o'r meithrinfeydd dydd (90%) yn agor cyn 9.00 am., dim ond 5% o'r ymatebwyr oedd yn agor yn hwyr (ar ôl 6.00 pm).

1.69 Mae'n amlwg bod y trefniadau gofal plant yn ystod y tymor yn diwallu anghenion rhieni neu ofalwyr yn well, gyda 68% yn dweud bod eu hanghenion yn ystod y tymor yn cael eu bodloni'n llawn, o gymharu â 60% a ddywedodd bod y trefniadau'n bodloni eu hanghenion yn llawn yn ystod y gwyliau. Roedd amrywiaeth eang o fewn y sir gyda 59% o'r trefniadau yn ystod y tymor yn bodloni'r anghenion yn is-ardal Tywi a bron i dri chwarter (72%) yn cael eu bodloni yn is-ardal Taf Myrddin.

1.70 Dangosodd yr Arolwg Rhieni/Gofalwyr bod dros chwarter yr ymatebwyr (28%) eisiau gofal plant ar adegau gwahanol yn ystod y tymor a bod 15% eisiau sesiynau mwy hyblyg. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai cynlluniau gwyliau gael eu hymestyn i bob gwyliau nid dim ond gwyliau'r haf yn unig. Soniodd nifer o'r rhieni hefyd yr hoffent gael gofal plant ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd.

1.71 Roedd bron un o bob deg (9%) o'r ymatebwyr yn dymuno defnyddio mwy o ofal plant cyn ysgol, ac roedd 18% yn dymuno defnyddio gofal plant ar ôl ysgol tan 6pm. Roedd tri ar ddeg y cant o rieni am gael gofal

[1] Caerdydd : Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru

plant ar ôl 6 pm. Roedd rhai ymatebwyr yn galw am fwy o hyblygrwydd o ran oriau agor fel y gallent gyrraedd y gwaith yn brydlon.

Bylchau o ran oedran

1.72 Roedd pedwar deg un y cant o'r ymatebwyr i'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod dewis da o ofal plant yn lleol ar gyfer gwahanol oedrannau. Roedd y lefelau uchaf o anghytuno yn is-ardaloedd Teifi (53%) a Thywi (62%).

1.73 Y prif ddarparwyr gofal dydd ar gyfer plant 0 i 4 oed oedd Gwarchodwyr Plant, Meithrinfeydd Dydd a'r Clybiau Gofal ar ôl Ysgol. Yn y sir gyfan mae **19** o leoedd i bob 100 o blant oedran 0 i 4 yn ystod y tymor. **Ceir amrywiaeth eang yn y ddarpariaeth o fewn y sir. Mae gan is-ardaloedd Gwendraeth a Theifi nifer sylweddol is o leoedd yn ystod y tymor i bob 100 o blant na'r is-ardaloedd eraill, sef 12.5 a 13 lle i bob 100 o'i gymharu â 24 lle i bob 100 yn is-ardal Taf Myrddin. Yn ystod gwyliau'r ysgol mae amrywiaeth eang hefyd yn y ddarpariaeth sy'n amrywio o 8 lle i bob 100 yn is-ardal Gwendraeth, i 23 lle i bob 100 yn is-ardal Taf Myrddin, o'i gymharu ag 15 lle i bob 100 yn y sir gyfan.** Amcangyfrifir bod angen y lleoedd gofal dydd ychwanegol canlynol:

Gofal Dydd Llawn		
0-4 (yn ystod y tymor)	**202**	o leoedd
	(106)	Gwendraeth
	(37)	Llanelli
	(33)	Teifi
	(26)	Aman
0-4 (Gwyliau)	**169**	o leoedd
	(117)	Gwendraeth
	(23)	Aman
	(29)	Teifi
5-10 (yn ystod y tymor)	**178**	o leoedd
	(121)	Llanelli
	(28)	Tywi
	(25)	Aman
	(4)	Teifi
Gofal Gwyliau		
3-14 (neu 17 yn achos plant anabl)	**212**	o leoedd
	(136)	Llanelli
	(53)	Gwendraeth
	(23)	Taf/Myrddin

1.74 Ar y cyfan, roedd **11.4** lle yn ystod y tymor i bob 100 o blant oedran 5 i 10 yn y sir yn 2010. Roedd amrywiaeth eang yn yr is-ardaloedd gyda'r

ddarpariaeth isaf gymharol o **8.3** lle i bob 100 yn Llanelli, o'i gymharu â Thaf Myrddin oedd â mwy na dwywaith y gyfradd honno.

1.75 Mae'n anodd mesur nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael i blant 5 i 10 oed yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr yn awgrymu bod gofal plant anffurfiol yn bwysig a bod teulu a ffrindiau yn cael eu defnyddio. Nododd y rhieni hefyd eu bod yn defnyddio meithrinfeydd dydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae ffurflenni'r Arolwg Darparwyr Gofal Plant yn ein galluogi i ddadansoddi plant yn ôl grŵp oedran. Fodd bynnag, cafodd yr arolwg ei gynnal yn yr hydref, ac nid yn ystod gwyliau'r ysgol, ac felly mae'r dadansoddiad hwnnw yn ôl grŵp oedran yn debygol o danamcangyfrif cyfraniad gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd fel darparwyr gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

1.76 Darparwr arall pwysig o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yw'r clybiau gwyliau a'r Cylchoedd Chwarae yn ystod yr haf. Unwaith eto, ni allai'r arolwg ddarparu data dibynadwy yn ôl grŵp oedran i benderfynu ar y cyfraniad a wneir gan y sectorau hyn. Bydd angen gwneud gwaith pellach yn ystod gwyliau'r ysgol i benderfynu ar y defnydd yn ôl grŵp oedran.

1.77 Ar y cyfan, darperir gofal i blant 11 i 14 oed (17 oed i blant anabl) yn ystod y tymor drwy'r system Ownzone. Darperir llai nag 1% drwy ddulliau eraill (gwarchodwyr plant). Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar ôl ysgol o'r math a ddarperir gan Ownzone mewn rhannau helaeth o'r sir ym mis Hydref 2010. Y pedair ysgol uwchradd nad ydynt yn cael darpariaeth Ownzone yw Ysgol Bro Myrddin, Ysgol y Frenhines Elisabeth, Ysgol Emlyn ac Ysgol Pantycelyn.

1.78 Ar draws y sir amcangyfrifir bod **4** lle gwyliau i bob 100 o blant rhwng 3 a 14 (17 oed yn achos plant anabl). Os nad yw'r lefel honno o ddarpariaeth mewn is-ardal benodol, gellid ystyried bod bwlch yn yr ardal honno o ran gofal plant. **Yn is-ardaloedd Gwendraeth a Llanelli y mae'r nifer isaf o leoedd i bob 100 o blant gyda 2.4 a 2.8 lle yn y drefn honno. I'r gwrthwyneb roedd 11 lle i bob 100 o blant yn is-ardal Tywi. Amcangyfrifir bod angen 212 o leoedd gwyliau ychwanegol yn is-ardaloedd Llanelli (136), Gwendraeth (53) a Thaf Myrddin (23).**

Bylchau o ran math

1.79 Dangosodd Cyfrifiad Poblogaeth 2001 yn glir bwysigrwydd yr iaith gan fod yn Sir Gaerfyrddin fwy o siaradwyr Cymraeg nag unrhyw sir arall yng Nghymru. O ran canran roedd 50% o'i phoblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, ac roedd Sir Gaerfyrddin yn y pedwerydd safle y tu ôl Gwynedd (69%), Ynys Môn (60%) a Cheredigion (52%). Roedd cyfraddau uwch o siaradwyr Cymraeg ymysg plant yn y grŵp oedran 3 i 14 oed gyda 59% yn siarad Cymraeg. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith fod y Gymraeg yn rhan orfodol o'r cwricwlwm yng Nghymru, gyda phob plentyn o oedran ysgol statudol yn cael gwersi Cymraeg. Serch hynny

roedd y nifer oedd yn siarad Cymraeg yn 2001 yn amrywio'n fawr o fewn y sir, gyda thri chwarter neu fwy o blant yn ardaloedd cymunedol Tywi (75%), Gwendraeth (77%) a Theifi (81%) yn siarad Cymraeg o'i gymharu â thraean y plant (35%) yn ardal Llanelli.

1.80 Nododd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf bod galw am feithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanelli, ac erbyn hyn mae cyfleuster o'r fath ar gael ac yn darparu **36** lle ychwanegol.

1.81 Ar gyfer bron i dri chwarter y plant (73%) Cymraeg yw iaith y ddarpariaeth gofal plant yn ystod y tymor, gyda thraean y plant yn cael gofal yn Gymraeg yn unig, a 40% arall yn cael gofal dwyieithog. Roedd amrywiaeth eang o fewn y sir gydag 89% yn ardal Teifi yn cael gofal plant naill ai yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog o'i gymharu â 55% yn ardal Llanelli. Cafodd chwarter y gofal plant yn ystod y gwyliau ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â 33% o'r gofal plant yn ystod y tymor. Roedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ei hisaf yn ardal Llanelli (15%), ac ar ei huchaf yn is-ardal Gwendraeth (30%).

1.82 Roedd y pwysigrwydd yr oedd rhieni a gofalwyr yn ei roi ar ddarpariaeth iaith Gymraeg yn sylweddol is na'r cyfartaledd sirol (60%) yn Llanelli (43%). Roedd chwarter y rhieni a gofalwyr a holwyd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Roedd hyn yn amrywio o 9% yn Llanelli i 35% yn is-ardal Aman.

1.83 Roedd gan ganrannau sylweddol o ddarparwyr gofal plant naill ai gynlluniau neu wedi mynegi diddordeb mewn ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir ganddynt. Roedd chwarter y rhain yn Warchodwyr Plant a lleoliadau gofal sesiynol, roedd 57% yn feithrinfeydd dydd ac roedd 46% yn glybiau ar ôl ysgol.

YR ARGYMHELLION AR GYFER SICRHAU DIGON O OFAL PLANT

1.84 O ystyried rôl yr Awdurdod Lleol mewn rheoli'r farchnad gofal plant a helpu i gynnal a datblygu gofal plant yn yr ardaloedd hynny lle mae angen heb ei ddiwallu, mae'r Adroddiad hwn yn gwneud yr argymhellion canlynol i fynd i'r afael â'r bylchau presennol o ran y cyflenwad a'r galw yn Sir Gaerfyrddin.

RÔL YR AWDURDOD LLEOL

Argymhelliad
Parhau i hyrwyddo'r rôl allweddol y mae gofal plant yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Sicrhau bod y manteision o ran magu plant, a chynorthwyo a chefnogi eu datblygiad a'u lles parhaus a gwella'r

economi leol yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi, ac yn cael eu hintegreiddio ar lefel strategol uwch yn Strategaethau/Cynlluniau Cyflawni'r Awdurdod Lleol.

Argymhelliad
Parhau i sicrhau bod adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r dyletswyddau gofal plant statudol a osodwyd arnynt gan Adran 22 a 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006, yn ogystal â'u cyfrifoldebau i gefnogi'r rhain.

Argymhelliad
Monitro effaith yr hinsawdd economaidd bresennol ar ddarparwyr gofal plant a rhoi system ar waith mewn da bryd i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth.
Argymhelliad
Sicrhau bod Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, a bod digon o adnoddau ar gael i alluogi hyn. Adolygu, monitro a diweddaru'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn er mwyn mesur cynnydd.

Y GALW AM OFAL PLANT

Argymhelliad
Monitro'r ymholiadau gan rieni a gofalwyr drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mewn perthynas ag anghenion gofal plant ac asesu'r galw am ofal plant y tu allan i 8am-6pm, ar benwythnosau ac oriau annodweddiadol. Sicrhau bod yr wybodaeth hon yn bwydo i broses gynllunio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

Y CYFLENWAD O OFAL PLANT

Argymhelliad
Defnyddio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn ddull o dynnu sylw pob darparwr gofal plant newydd, ar ôl y cysylltiad cyntaf gyda'r Awdurdod Lleol/Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd/AGGCC.

Argymhelliad
Rhoi cyhoeddusrwydd i ardaloedd lle mae'r cyflenwad o ofal plant yn isel a'u hyrwyddo fel cyfleoedd busnes a'u hybu'n lleol.

Argymhelliad
Parhau i gynnig grantiau dechrau busnes i ddarparwyr gofal plant newydd sydd eisiau sefydlu mewn ardaloedd yn y Sir lle bernir bod diffyg cyflenwad gofal plant.

Argymhelliad

Cynyddu nifer y plant 2-3 oed sy'n defnyddio gofal plant ac sy'n byw yn ardaloedd cymwys Dechrau'n Deg ac sydd â hawl i 12.5 awr o ofal plant di-dâl bob wythnos.

GOFAL DYDD AMSER LLAWN

Meithrinfeydd Dydd

Argymhelliad Cynnal a pharhau i gefnogi'r lefel gyfredol o leoedd gofal dydd llawn a ddarperir gan feithrinfeydd dydd ledled y Sir.

Gwarchodwyr Plant

Argymhelliad Cynnal a pharhau i gefnogi'r gwarchodwyr plant sydd eisoes ar gael yn y Sir.

Argymhelliad Recriwtio gwarchodwyr plant newydd ychwanegol yn ardaloedd rhwydwaith cymunedol Tywi, Teifi a Thaf Myrddin.

Argymhelliad Parhau i ariannu costau hyfforddi Cyflwyniad i Arferion Gwarchod Plant (ICP) ar gyfer darpar warchodwyr plant. Y flaenoriaeth i'w rhoi i ardaloedd lle mae galw heb ei ddiwallu ar hyn o bryd.

Argymhelliad Parhau i ariannu pecynnau Dechrau Safonol ar gyfer yr holl warchodwyr plant sydd newydd gofrestru.

Argymhelliad Sicrhau bod gwarchodwyr plant yn gwybod am y newidiadau i fudd-daliadau ar gyfer rhieni unigol a'r goblygiadau posibl ar gyfer y galw am ofal plant, a mynd ati'n ymarferol i annog gwarchodwyr plant presennol a newydd i fod yn hyblyg yn eu horiau agor a hyrwyddo hyn yn eang.

Argymhelliad Ystyried cynnig cymhellion i warchodwyr plant sydd newydd gymhwyso i gael hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion penodol plant ag anableddau/AAA. Helpu'r gwarchodwyr plant hyn trwy ddarparu cyllid ychwanegol i brynu adnoddau arbenigol.

Argymhelliad Monitro'r trosiant o warchodwyr plant cofrestredig (drwy GGD ac AGGCC) a'r rhesymau pam eu bod yn datgofrestru. Sicrhau bod yr

wybodaeth hon yn bwydo i broses gynllunio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

Gofal ar ôl ysgol

Argymhelliad
Sicrhau bod yr holl glybiau ysgol yn dal i fod yn gynaliadwy er mwyn cynnal y lefelau presennol o ddarpariaeth ar gyfer plant oed ysgol gynradd.

Argymhelliad
Annog clybiau sydd heb eu cofrestru ar hyn o bryd i ddod yn gofrestredig fel y gallant weithredu am dros ddwy awr ac fel y gall rhieni/gofalwyr hawlio credydau treth.

Argymhelliad
Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth newydd ar ôl ysgol yn ardaloedd rhwydwaith cymunedol Tywi, Gwendraeth, Llanelli ac Aman.

Argymhelliad
Rhoi anogaeth i hyrwyddo cyfleusterau ar ôl ysgol Ownzone, ac archwilio'r posibilrwydd o wella'r trefniadau cludiant fel bod plant sy'n dibynnu ar gludiant ysgol yn medru aros yn yr ysgol ar ôl oriau.

Argymhelliad
Cynyddu'r ddarpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer plant oed ysgol uwchradd.

Clybiau Brecwast a'r Fenter Brecwast am Ddim

Argymhelliad
Annog ysgolion i ystyried agor eu Clybiau Brecwast a'r Fenter Brecwast am Ddim yn gynharach, h.y. 8a.m. er mwyn i'r rhieni allu cyrraedd y gwaith mewn pryd.

GOFAL SESIYNOL

Argymhelliad
Cynnal a pharhau i gefnogi lleoliadau gofal sesiynol. Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd gofal plant yn yr ardaloedd hynny, megis ardal rhwydwaith cymunedol Tywi, lle mae'r nifer yn isel iawn ar hyn o bryd.

GOFAL GWYLIAU

Argymhelliad
Sicrhau bod yr holl glybiau gwyliau a'r cylchoedd chwarae presennol yn parhau'n gynaliadwy er mwyn cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth.

Argymhelliad

Archwilio'r posibilrwydd o gynyddu ymhellach y ddarpariaeth clybiau gwyliau a'r ddarpariaeth cylchoedd chwarae yn ardaloedd rhwydwaith cymunedol Llanelli, Taf Myrddin, Tywi a Gwendraeth.

Argymhelliad
Archwilio'r posibilrwydd y gallai clybiau gwyliau a chylchoedd chwarae ymestyn eu cyfnodau agor i gynnwys yr holl wyliau ysgol ac nid dim ond gwyliau'r haf.

DARPARIAETH GYMRAEG/DWYIEITHOG

Argymhelliad
Cefnogi datblygiad darpariaeth gofal plant ychwanegol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n gynaliadwy mewn ardaloedd o angen heb ei ddiwallu, yn enwedig y ddarpariaeth gwyliau.

ARGAELEDD/HYBLYGRWYDD

Argymhelliad
Annog darparwyr gofal plant presennol a newydd i ystyried ymestyn eu horiau agor i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio, e.e. ymestyn yr oriau agor hanner awr yn y bore a'r nos.

Argymhelliad
Ystyried cynnig cymhellion i nifer fach o leoliadau gofal dydd llawn presennol i dreialu oriau agor estynedig (y tu hwnt i 8am-6pm) am gyfnod prawf, i ganfod a oes digon o alw i barhau â'r oriau estynedig ar sail fwy parhaol.

Argymhelliad
Annog darparwyr gofal plant presennol a newydd i ystyried cynnig gwasanaeth casglu a gollwng os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny, er mwyn darparu ar gyfer rhieni sy'n gweithio.

Argymhelliad
Annog gwarchodwyr plant presennol a newydd i fod yn hyblyg yn eu horiau agor ac ystyried darparu ar gyfer anghenion rhieni sy'n gweithio sifftiau, ar benwythnosau ac oriau annodweddiadol eraill.

FFORDDIADWYEDD

Argymhelliad
Parhau i annog rhieni a gofalwyr i fanteisio ar yr Elfen Gofal Plant o'r Credyd Treth Gwaith trwy weithio mewn partneriaeth.

Argymhelliad

Annog darparwyr gofal plant i ystyried cynnig strwythurau prisio mwy hyblyg e.e. cyfraddau fesul awr yn hytrach na ffioedd am hanner diwrnod/diwrnod llawn, gostyngiadau ar gyfer brodyr a chwiorydd, seibiant gwyliau di-dâl (hyd at 2 wythnos) ac ati.

HYGYRCHEDD

Argymhelliad
Gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i nodi a chofnodi nifer/lleoliad y cleientiaid hynny sy'n nodi 'diffyg gofal plant priodol' fel rheswm dros beidio â manteisio ar gyflogaeth neu hyfforddiant. Sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan GGD ac yn bwydo i broses gynllunio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

Argymhelliad
Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith i gynnig gwasanaeth allgymorth GGD estynedig/sesiynau galw heibio i gleientiaid y Ganolfan Byd Gwaith.

CYNALIADWYEDD

Argymhelliad
Parhau i gynnig grantiau cynaliadwyedd i ddarparwyr gofal plant ar ffurf cyllid refeniw.

GWYBODAETH

Argymhelliad
Parhau i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r GGD ymhlith rhieni, gofalwyr a chyflogwyr ledled Sir Gaerfyrddin er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am ofal plant, gwasanaethau plant a phobl ifanc, credydau treth a gwasanaethau AAA/anabledd ar gael yn eang mewn amryw o fformatau gwahanol.

Argymhelliad
Cynyddu ymhellach ymwybyddiaeth a phroffil y GGD ymysg rhieni, gofalwyr a chyflogwyr (yn enwedig ymhlith rhieni plant anabl).

Argymhelliad
Gwella ystod a hygyrchedd gwybodaeth ar gyfer rhieni plant anabl er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am y gofal plant mwyaf priodol i ddiwallu anghenion eu plentyn/plant.

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A CHYNHWYSIANT

Argymhelliad

Gweithio gyda rhieni a darparwyr gofal plant i chwalu'r problemau gwirioneddol neu dybiedig sy'n eu rhwystro rhag manteisio ar ofal plant ffurfiol.

Argymhelliad
Rhoi cymorth i ddarparwyr gofal plant sydd eisiau ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant anabl/AAA yn enwedig o safbwynt offer arbenigol a hyfforddiant staff.

DATBLYGU'R GWEITHLU

Argymhelliad
Sicrhau bod y gweithlu gofal plant yn parhau i gael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant priodol, a chyfleoedd i gael datblygiad proffesiynol parhaus.

Argymhelliad
Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n weithwyr proffesiynol cymwys ym maes gofal plant ac sy'n gallu darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad
Cynyddu lefelau hyder y staff sy'n siarad Cymraeg sydd eisoes yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant Cymraeg a dwyieithog.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Argymhelliad
Cydweithio a meithrin cysylltiadau ar draws adrannau (Tai, Adfywio, Datblygu Economaidd, Cynllunio ac ati) a rhaglenni (Dechrau'n Deg, Genesis 2) i fuddsoddi mewn gofal plant ac i wneud yn fawr o'r buddsoddiad sydd ar gael.

YMGYNGHORI GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Argymhelliad
Archwilio'r posibilrwydd o weithio ar y cyd gyda sefydliadau gofal plant/darparwyr gofal plant i gynnal ymgynghoriad ystyrlon gyda phlant a phobl ifanc er mwyn cael eu barn a'u hadborth am gryfderau, gwendidau a bylchau yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion/pryderon eu deall.

CASGLIADAU/Y CAMAU NESAF

1.85 Drwy gydol y broses asesu rydym wedi ceisio cynnwys amrywiaeth eang o randdalwyr allweddol, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, darparwyr gofal plant, sefydliadau gofal plant, ac aelodau o'r gymuned leol ehangach. Roeddem wedi ymgynghori ynghylch y Crynodeb o'r Asesiad rhwng 21ain Mawrth a 18fed Ebrill 2011. Anfonwyd copi papur a chopi electronig o'r Crynodeb i'n rhanddalwyr allweddol ynghyd â ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori. Hefyd, roedd y Crynodeb a'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori i'w gweld ar wefannau'r Bartneriaeth Plant a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod modd i'r cyhoedd eu gweld. Cafodd yr holl ymatebion eu casglu ynghyd a'u hystyried.

1.86 Er mwyn ymateb i'r bylchau a nodwyd yn yr Asesiad llawn, datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-12 mewn partneriaeth gyda'n partneriaid allweddol gofal plant. Bydd gan y cynllun gysylltiad uniongyrchol â'r Argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad hwn. Caiff y Cynllun Gweithredu ei fonitro, ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn gan aelodau o Grŵp Datblygu Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bartneriaeth Plant.